



Annwyl

25 Medi 2020

Cais am Wybodaeth – ATISN 14272

Diolch i chi am eich ceisiau am wybodaeth a ddaeth i law ar 27 Awst. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Faint o elw ariannol sy'n dod i economi Cymru trwy wariant ymwelwyr? Nid yngymaint faint a ddaw i wahanol sectorau'r farchnad (gwestai, meysydd gwerysyla, bwytai, atyniadau ac yn y blaen), ond faint sy'n dod i'r siroedd a'r cymunedau yn sgil hynny o weithgarwch y cyfryw sectorau y gellir ei briodoli i wariant ymwelwyr.
2. Os oes gennych ffigurau ar gyfer cyfraniad twristiaeth i'r economi leol, yna beth yw union ffynhonnell y ffigurau hynny, os gwelwch yn dda?

Yn ogystal roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol –

1. Faint oedd cyfraniad twristiaeth at Gynnyrch Domestig Gros (GDP) Cymru yn 2019, o ran
 - a) cyfanswm arian, a
 - b) canran o CDG y wlad?
2. Ar ba sail yr amcangyfrifir hynny?
3. Faint oedd cyfraniad twristiaeth at gyflogaeth yng Nghymru, o ran:
 - a) cyfanswm nifer swyddi a
 - b) canran o'r gweithlu yn 2019?
4. Ar ba sail yr amcangyfrifir hynny?
 - a) Os ar sail dosbarthau NACE*, pa ddsbarthau a gynhwysir?
 - b) Os ar sail gwybodaeth BRES**, pa ddsbarthau neu fathau o weithwyr a gynhwysir?
5. A ddefnyddir gwybodaeth o unrhyw ffynhonnell arall?



BUDDSODDWR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Llywodraeth Cymru /
Welsh Government
Parc Cathays / Cathays Park
CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Nomenclature statistique des activités économiques dans la Communauté européenne.

Gallai dosbarthau NACE posibl gynnwys

H491 Cludiant teithwyr rheilffordd rhwng canolfannau trefol

H4932 Tacsis

H4939 Cludiant teithwyr arall ar dir

H501 Cludiant teithwyr ar y môr a'r glannau

H503 Cludiant teithwyr ar ddyfroedd mewndirol

H511 Cludiant teithwyr yn yr awyr

I551 Gwestai a'u tebyg

I552 Llety gwyliau a thymor byr arall

I553 Meysydd gwersylla, parciau cerbydau ac ôl-gerbydau hamdden

I561 Bwytaï a gweithgareddau gwasanaethau bwyd symudol

I563 Gweini diodydd

N771 Rhentu a lesio cerbydau

N7721 Rhentu a lesio offer hamdden a chwaraeon

N79 Asiantaethau teithio, trefnwyr teithio a gweithgareddau sicrhau lle a pherthynol

**Business Register and Employment Survey, Office for National Statistics.

Gallaf gadarnhau ein bod yn cadw rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

O safbwynt i ba raddau y mae economi Cymru'n elwa'n ariannol ar wariant ymwelwyr, mae gennym ddata ynghylch y swm a gaiff ei wario o fewn yr economi ymwelwyr (mae hyn yn cynnwys gwariant gan drigolion Cymru) a hefyd amcangyfrifon ynghylch y cyfraniad at gyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros Cymru o'r sector twristiaeth. Eto i gyd, nid yw'r amcangyfrifon o safbwynt Gwerth Ychwanegol Gros y sector ond yn cael eu cynhyrchu ar lefel genedlaethol ac felly nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfer gwledydd na chymunedau unigol.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae gwariant yn yr economi ymwelwyr wedi bod oddeutu £6 biliwn y flwyddyn, ac roedd ychydig llai na £6 biliwn y llynedd. Cafodd tua hanner biliwn ei wario gan ymwelwyr rhyngwladol a'r £5.5 biliwn arall gan drigolion Prydain Fawr. Cafodd yr amcangyfrif diweddaraf o safbwynt Gwerth Ychwanegol Gros ar gyfer twristiaeth ei gyfrifo yn 2016 a gwelwyd bod twristiaeth yn gyfrifol am 6%, sy'n cyfateb i werth £3 biliwn o Werth Ychwanegol Gros.

Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg amcangyfrifon Gwerth Ychwanegol Gros ar gael ar dudalen Llywodraeth Cymru [Gwerth ychwanegol gros rhanbarthol: 1997 i 2016](#). Mae'n nodi bod yr amcangyfrifon hyn yn cael eu trin fel ystadegau arbrofol ar hyn o bryd, ond erbyn hyn dyma ddull swyddogol yr ONS ar gyfer ymdrin â Gwerth Ychwanegol Gros.

Nid yw data ynghylch Cynnyrch Domestig Gros Cymru ar gyfer 2019 wedi'u cyhoeddi eto, ond roedd Cynnyrch Domestig Gros yng Nghymru yn 2018 yn £74.9 biliwn fel y nodir yn yr [adroddiad hwn](#) sydd hefyd yn cynnwys amcangyfrif o ran Gwerth Ychwanegol Gros o £65.1 biliwn ar gyfer Cymru. Mae dolenni i [wybodaeth am fethodoleg](#) ar dudalen yr ONS ar gyfer [Gweithgarwch economaidd rhanbarthol yn ôl gwerth ychwanegol gros \(wedi mantoli\)](#).

Er nad yw ffigurau o ran cyfraniad at Werth Ychwanegol Gros wedi'u rhannu'n is na lefel Cymru gyfan caiff gwariant uniongyrchol o fewn yr economi ymwelwyr ei gofnodi drwy arolygon Ymweliadau Dydd a Thwristiaeth Prydain Fawr a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Mae'r adroddiad [Perfformiad Twristiaeth](#) yn rhoi trosolwg cenedlaethol o wariant o farchnadoedd domestig a rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r gwariant o fewn y farchnad ddomestig wedi'i rannu'n [Ymweliadau Dydd](#) ac [ymweliadau dros nos](#) ac mae'r adroddiadau blynyddol hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i rhannu ar sail ranbarthol. Caiff gwariant rhanbarthol yn ôl rhanbarth ei gyfrifo'n llai aml ond gallwch weld data hyd at 2016 yn yr [adroddiadau hyn](#).

O safbwynt cyflogaeth, mae [ystadegau sectorau â blaenoriaeth](#) yn cynnwys data ynghylch nifer y gweithwyr yng Nghymru o fewn busnesau twristiaeth hyd at 2017. Mae'r ffigurau hyn yn deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ac yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i rhannu ar lefel awdurdodau lleol. Mae lefelau cyflogaeth ym maes twristiaeth yn amrywio ar draws Cymru ond mae'n cyfrannu at 10% neu fwy o gyflogaeth mewn wyth ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a chymaint ag 16% mewn rhai ardaloedd. Mae'r diffiniad o 'dwrystiaeth' a ddefnyddir yn ystadegau sectorau â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogaeth yn seiliedig ar godau SIC perthnasol. Gallwch weld rhestr ohonynt yn y tabl data o'r enw 'Ystadegau sectorau â blaenoriaeth, 2018 – Diwygiedig: tablau' ar y [dudalen hon](#) yn y tab DefinitionsSIC2007Sectors. Caiff gwahanol ffynonellau data eu defnyddio ar gyfer amcangyfrifon ynghylch cyflogaeth gan gynnwys Cofrestr Busnesau Rhyngadrannol yr ONS, yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Caiff manylion y ffynonellau data hyn eu cynnwys yn yr un tabl data [ar y dudalen hon](#) yn y tab DataSources.

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, cewch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid anfon ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Yr Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

neu anfonwch e-bost at: Freedom.ofinformation@gov.wales. Cofiwch ddyfynnu'r rhif cyfeirnod ATISN uchod.

Hefyd mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

The Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Fodd bynnag, noder na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi mynd drwy ein proses adolygu mewnol.

Yn gywir